



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales



GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Protocol rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Awst 2009

Protocol rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Phwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymdeithas Prif Swyddogion Tân Cymru/Yr Awdurdodau Tân ac Achub

1. Cyflwyniad

- 1.1. Diben y protocol hwn yw egluro'r berthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Er mwyn hwyluso hyn, bydd AGGCC a'r Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol yn goruchwyllo'r trefniadau wrth iddynt gael eu rhoi ar waith a'u hadolygu, i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion yr holl randdeiliaid. Mae'r Protocol wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau cysondeb yn y gwaith, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod cysondeb i'w weld, hyd y mae'n bosibl, yn y penderfyniadau y bydd AGGCC a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn eu gwneud ledled Cymru.

2. Y Cefndir Cyfreithiol: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Yn Ebrill 2007, unwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gan greu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Is-adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru yw AGGCC, ond mae gan ei changen reoliadol awdurdod dirprwyedig llawn ar gyfer ei phenderfyniadau rheoliadol. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod pob sefydliad ac asiantaeth a gofrestrir yn cydymffurfio â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000. Yn achos gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd eraill ar gyfer plant dan wyth oed, mae AGGCC yn sicrhau y cydymffurfir â Rhan 10A Deddf Plant 1989, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2000. Ers 2005 mae gofal ieuchyd annibynnol yng Nghymru yn cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

2.1. Gwasanaethau ar gyfer Plant

Mae AGGCC yn rheoleiddio'r gwasanaethau a ganlyn ar gyfer plant (Gweler Atodiad B, Diffiniadau):

- Cartrefi Plant, gan gynnwys y rhai sy'n darparu llety diogel
- Gwasanaethau Gofal Dydd ar gyfer plant – gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, crèches a chwarae mynediad agored
- Gwasanaethau maethu'r sector cyhoeddus a'r sector annibynnol
- Gwasanaethau mabwysiadu cyhoeddus a gwirfoddol
- Ysgolion Arbennig Preswyl, Ysgolion Byrddio a Cholegau Addysg Bellach sy'n rhoi llety i fyfyrwyr dan 18 oed
- Canolfannau Preswyl i Deuluoedd
- Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

2.2. Gwasanaethau ar gyfer Oedolion

Mae AGGCC yn rheoleiddio'r gwasanaethau a ganlyn ar gyfer oedolion (Gweler Atodiad B, Diffiniadau):

- Cartrefi Gofal
- Asiantaethau Gofal Cartref
- Cynlluniau Lleoli Oedolion
- Asiantaethau Nyrsys

2.3. Mae AGGCC hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rheoliadau isod mewn grym, pob un ohonynt yn rheoleiddio un maes gofal:

- Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002
- Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004
- Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004
- Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Mabwysiadu (Amryfal Ddiwygiadau) 2003
- Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu 2005
- Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003
- Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwysio i Ysgolion) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Byrddio (Cymru) 2002
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

Yn ogystal â'r rheoliadau uchod ceir hefyd safonau gofynnol cenedlaethol, a gymerir i ystyriaeth wrth arolygu.

2.4. Mae Adran 22 Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â sefydliadau ac asiantaethau, gan gynnwys cartrefi gofal, cartrefi plant a lleoliadau gofal iechyd preifat a gwirfoddol a gofrestrir o dan Ran II y Ddeddf. Yn arbennig, mae Adran 22(2)(c) yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud rheoliadau am *"ffitrwydd safle i'w ddefnyddio"*.

2.5. Adran 79C Deddf Plant 1989 yn rhoi p• er i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud rheoliadau ar gyfer lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd arall ar gyfer plant dan wyth oed. Mae 'gofal dydd arall' yma yn cynnwys meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, crèches, gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Yn arbennig, mae adran 79C(3)(e) yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud rheoliadau yngl•n â *"cynnal safleoedd ac offer, eu diogelwch a'u haddasrwydd"*.

"Mae Adran 87 Deddf Plant 1989 yn rhoi p• er i AGGCC arolygu ysgolion arbennig preswyl, ysgolion byrddio a cholegau addysg bellach sy'n darparu llety ar gyfer plant, mewn perthynas â lles y plant a letyir

yno. Mae angen i AGGCC fod yn fodlon bod eu lles yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo ac mae addasrwydd y safle a'r offer yn rhan o hynny. Gall y Cynulliad wneud rheoliadau ynglŷn ag arolygiadau o'r fath o dan adran 87."

- 2.6. Roedd y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2000 a Deddf 1989 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhagofalon tân. Oddi ar hynny, mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn Diogelwch Tân) wedi diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002, Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002, Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002, Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003. Dyna sydd i'w weld mewn perthynas ag adran 24(4) Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) –

Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

11. Mae Rheoliad 24 Deddf Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 (ffitrwydd safleoedd) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn -

(a) ym mharagraff (4) yn y fersiwn Saesneg, yn lle'r geiriau "The registered person" rhodder i mewn "Subject to paragraph (4A) the registered person";

(b) ym mharagraff (4) yn y fersiwn Cymraeg, yn lle'r geiriau "Rhaid i'r person cofrestredig" rhodder i mewn "Yn ddarostyngedig i baragraff (4A) rhaid i'r person cofrestredig";

(c) ar ôl paragraff (4) yn y fersiwn Saesneg rhodder i mewn -

" (4A) Where the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 applies to the care home—

(a) paragraph (4) does not apply; and

(b) the registered person must ensure that the requirements of that Order and any regulations made under it, except for article 23 (duties of employees), are complied with in respect of the care home."; a

(d) ar ôl paragraff (4) yn y fersiwn Cymraeg rhodder i mewn -

" (4A) Pan fydd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gymwys i'r cartref gofal -

(a) nid yw paragraff (4) yn gymwys; a

(b) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau cydymffurfiad â gofynion y Gorchymyn hwnnw ac ag unrhyw reoliadau a wnaed oddi tano, ac eithrio erthygl 23 (dyletswyddau cyflogeion), mewn perthynas â'r cartref gofal."

Enghraifft yw hyn ac fe ddylai arolygwyr sy'n arolygu gwasanaethau oedolion a phlant fod yn ymwybodol o'r adrannau penodol yn y rheoliadau ar gyfer pa wasanaeth bynnag y maent yn ei reoleiddio. Mae'r gofynion Diogelwch Tân yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 hefyd i'w cymhwyso'n llawn mewn perthynas ag ysgolion arbennig preswyl, ysgolion byrddio a cholegau sy'n darparu llety i blant.

- 2.7. Rhwng popeth, bydd AGGCC yn ymwneud â'r safonau mewn rhyw 6,000 o leoliadau. Bydd yn arolygu'r gwasanaethau hyn yn erbyn gofynion y Ddeddf, y rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae AGGCC hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion a gwneud gwaith gorfodi mewn gwasanaethau a reoleiddir. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 yn darparu ar gyfer dau fath cyffredinol o waith gorfodi lle nad yw darparwr yn cyflawni ei rwymedigaethau:
- gall AGGCC ddwyn erlyniad **troseddol** neu roi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol, os yw'n ystyried bod trosedd statudol wedi digwydd, neu dorri amodau neu drosedd yn erbyn y rheoliadau;
 - gall AGGCC gymryd camau **sifil** a all gynnwys gwrthod cofrestru; gosod, amrywio neu dynnu amodau; neu yn y pen draw ganslo cofrestriad, ac ar gyfer hynny ceir trefn frys a threfn gyffredin.

Gellir cymryd camau gorfodi gwahanol mewn perthynas ag ysgolion arbennig preswyl, gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol ac ysgolion byrddio a cholegau o dan y ddeddfwriaeth addysg berthnasol a Deddf Llywodraeth Leol (Gwasanaethau Cymdeithasol) 1970.

3. Y Cefndir Cyfreithiol: Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymdeithas Prif Swyddogion Tân Cymru/Yr Awdurdodau Tân ac Achub

- 3.1. Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Prif Swyddogion Tân Cymru yw'r corff strategol sy'n cyd-drefnu polisi diogelwch tân ar ran tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.
- 3.2. Cangen ranbarthol yw Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru o Bwyllgor Diogelwch Tân Cenedlaethol, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ac felly mae'n gallu monitro effeithiau materion cenedlaethol a'u dylanwad posibl ar bolisiau a strategaethau diogelwch tân yng Nghymru.
- 3.3. Tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru yw -
- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Unedol Siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Penfro, Powys ac Abertawe.
 - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Unedol Siroedd Môn, Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd a Wrecsam

- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Unedol Siroedd Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Mynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Bro Morgannwg.

- 3.4. O dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Adran 6, Diogelwch Tân, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub wneud darpariaeth ar gyfer rhoi cyngor, pan ofynnir am hynny, mewn perthynas ag adeiladau a mathau eraill o eiddo, o ran –
[Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.]

- “(i) how to prevent fires and restrict their spread in buildings and other property;
(ii) the means of escape from buildings and other property in case of fire.”*

- 3.5. Daeth Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i rym ar 1 Hydref 2006. Nod y ddeddfwriaeth newydd yw lleihau'r baich a oedd gynt yn syrthio ar fusnesau oherwydd y ceid llawer o gyfundrefnau diogelwch tân cyffredinol a oedd yn gorgyffwrdd – a gorgyffwrdd yn digwydd yn sgil hynny yng nghyfrifoldebau'r gwahanol awdurdodau gorfodi. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn cyfuno a rhesymoli'r ddeddfwriaeth diogelwch tân (a oedd gynt ar wasgar mewn nifer fawr o statudau ac is-ddeddfwriaeth) mewn un Gorchymyn. Wrth wneud hyn, mae'n lleihau nifer yr awdurdodau gorfodi sy'n ymdrin â materion diogelwch tân cyffredinol, gan symleiddio'r cyfrifoldebau ym maes diogelwch tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn cadw'r lefel flaenorol o amddiffyniad ar gyfer y rhai sy'n defnyddio safleoedd (ac eraill a allai gael eu heffeithio petai tân ar y safle) a hefyd yn ei chynyddu.

- 3.6. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn rhoi pwyslais arbennig ar yr Unigolyn Cyfrifol a gall hwnnw fod –

- (a) mewn perthynas â gweithle, yn gyflogwr, os yw'r gweithle o dan ei reolaeth o gwbl;
- (b) mewn perthynas ag unrhyw safle nad yw yn dod o dan baragraff (a) –
- (i) yr unigolyn sy'n rheoli'r safle (fel meddiannwr neu fel arall) mewn cysylltiad â masnach, busnes neu unrhyw ymgymeriad arall y mae'n ei gynnal (er mwyn elw neu fel arall); a
- (ii) y perchennog, lle nad oes gan yr unigolyn sy'n rheoli'r safle reolaeth mewn perthynas â masnach, busnes neu ymgymeriad arall y mae'r unigolyn hwnnw'n ei gynnal.

- 3.7. Mae dyletswydd ar yr 'Unigolyn Cyfrifol' i sicrhau bod asesiad addas a digonol yn cael ei gynnal o'r risg o dân a rhaid iddo gymryd rhagofalon tân rhesymol mewn perthynas â chyflogeion a phobl eraill sy'n defnyddio'r safle. Os oes pump neu ragor o gyflogeion, os yw'r safle wedi'i drwyddedu neu os yw wedi cael Rhybudd Addasu, mae'n rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol yn yr asesiad risg. Mae'n bwysig y gweithredir ar y canfyddiadau arwyddocaol er mwyn lleihau'r risg o dân; gan hynny mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu cynllun gweithredu gan nodi'n glir pa fesurau sydd i'w defnyddio er mwyn lleihau'r risg o dân a chynnwys amserlen ar gyfer rhoi'r rhain ar waith.
- 3.8. Mae'n rhaid adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd. Os oes unrhyw reswm dros amau nad yw'r asesiad risg tân yn ddilys mwyach neu os bu newid sylweddol yn y safle, sydd wedi effeithio ar y rhagofalon tân, mae angen adolygu a diwygio'r asesiad .

Dyma rai rhesymau posibl dros gynnal adolygiad:

- newidiadau yn lefel dibyniaeth defnyddwyr y gwasanaeth
- newidiadau mewn prosesau gwaith neu'r modd y maent yn cael eu trefnu, gan gynnwys cyflwyno offer newydd
- newidiadau i'r adeilad, gan gynnwys cynllun y tu mewn
- newidiadau sylweddol yn y dodrefn a'r gosodion
- dechrau storio sylweddau peryglus, newid defnydd o ran eu storio neu storio rhagor ohonynt
- bod rhagofalon tân wedi methu, e.e. systemau canfod tân a systemau larwm, systemau chwistrellu ar gyfer diogelu bywyd neu systemau awyru
- newidiadau sylweddol mewn arddangosfeydd neu swm y stoc
- cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n bresennol
- presenoldeb pobl sydd â rhyw fath o anabledd
- presenoldeb staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth sydd heb fod â'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Dylid ystyried y risg posibl sydd ynghlwm wrth unrhyw newid sylweddol cyn i'r newid gael ei gyflwyno a dylid diwygio'r asesiad risg tân yn unol â hynny.

4. Fframwaith Cydweithredu

- 4.1. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd bellach rhwng AGGCC a'r Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn rhoi sylw i faterion strategol ar lefel Cymru gyfan. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i sicrhau, ar y lefel strategol hon, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol, polisïau'n cael eu datblygu a gwaith yn cael ei wneud ar y cyd. Cynhelir cyfarfodydd bob chwe mis fel rheol ond mae modd cynnal cyfarfodydd ychwanegol petai'r naill awdurdod neu'r llall yn teimlo bod angen hynny.
- 4.2. At hynny, bydd cyfarfodydd yn cael eu galw ar lefel Gwasanaeth Tân ac Achub lleol er mwyn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub a chynrychiolwyr pob

swyddfa ranbarthol sydd gan AGGCC yn yr ardal ddod at ei gilydd. Nod y cyfarfodydd mwy lleol hyn fydd adeiladu dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd, gwella cydweithrediad a chyd-drefniadaeth, cytuno ar drefniadau gwaith lleol a datrys problemau lleol. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ddwywaith y flwyddyn fel rheol.

- 4.3. Bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub ac AGGCC yn ceisio adeiladu dealltwriaeth o swyddogaethau ei gilydd a hyrwyddo cydweithio trwy ddatblygu trefniadau yn lleol ar gyfer cyd-ymweliadau i ystyried materion diogelwch tân mewn safleoedd cofrestredig.

5. Beth fydd AGGCC yn ei wneud ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub

- 5.1. Bydd AGGCC yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdodau Tân ac Achub am unrhyw faterion polisi a all effeithio ar drefniadau gwaith arfaethedig.
- 5.2. Bydd AGGCC yn goruchwyllo'r broses gofrestru, er mai'r Awdurdodau Tân ac Achub fydd yn parhau i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am orfodi materion diogelwch tân mewn safleoedd y mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân i'w gymhwyso iddynt. Sicrheir bod safonau diogelwch tân priodol yn cael eu cyflwyno a'u cynnal, trwy gyfrwng cyd-drefnu a chydweithio parhaus rhwng yr awdurdodau. Bydd AGGCC yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr am y modd y mae'r Asiantaeth a'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cydweithio er mwyn codi safonau.
- 5.3. Bydd AGGCC yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub os bydd un o arolygwyr AGGCC, yn ystod ymchwiliad neu arolygiad, yn tynnu sylw at faterion sydd yn amlwg yn achosi pryder, fel y rhai sydd i'w gweld yn y Rhestr Wirio Diogelwch Tân (Gweler Atodiad A – Rhestr Wirio Diogelwch Tân AGGCC). Yn yr achosion hyn, bydd AGGCC yn darparu'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub:
- manylion cyswllt yr arolygydd dan sylw yn AGGCC
 - enw, cyfeiriad a gwybodaeth ar gyfer cysylltu â'r darparwr (yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân)
 - y math o ofal a gynigir
 - nifer y llefydd gofal a gynigir
 - a ddarperir gofal dros nos ai peidio
 - pa bryderon sydd am ddiogelwch tân.
- 5.4. Os bydd gan AGGCC bryderon difrifol am ddiogelwch tân mewn unrhyw safle sy'n cynnig gofal, a'r rheini'n faterion brys, byddant yn cysylltu â'r Awdurdod Tân ac Achub er mwyn eu hannog i wneud yr hyn sydd yn briodol (Gweler 6.7)
- 5.5. Bydd AGGCC yn hysbysu Awdurdodau Tân ac Achub am safleoedd gofal newydd neu lle cafwyd hysbysiad am newid defnydd safle. Pryd bynnag y tynnir gwasanaeth oddi ar y gofrestr, bydd AGGCC yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub ac yn darparu manylion am y defnydd a wneir o'r safle ar ôl hynny, os yw hyn yn hysbys.

- 5.6. Bydd AGGCC yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ddarparwyr am faterion cyffredinol ynglŷn â ddiogelwch tân, fel rhan o'r broses cyn cofrestru. Y cyfarwyddyd safonol a ddarperir yw "A Short Guide to Making Your Premises Safe from Fire" sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/safety/law/?skip=1&lang=cy ac mae'r Canllawiau Asesu Risg mewn 5 Cam hefyd ar gael ar y wefan www.communities.gov.uk/fire/firesafety/firesafetylaw/aboutguides/
- 5.7. Gyda rhai eithriadau ar gyfer darpariaeth sydd yn fach fel t• domestig, bydd AGGCC, trwy ei swyddfeydd rhanbarthol, yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol am bob cais am gofrestriad cyntaf neu am newid perchnogaeth. Ym mhob achos, bydd AGGCC yn hysbysu'r ymgeisydd fod yr Awdurdod Tân ac Achub am gael ei hysbysu am y cais. Mae'r eithriad yn benodol ar gyfer ceisiadau gan warchodwyr plant. Ym mhob achos arall, bydd yn rhoi enw a chyfeiriad y safle a manylion cyswllt yr ymgeisydd. Bydd AGGCC yn cyfyngu'r hysbysiadau hyn i geisiadau pendant lle maent yn sicr bod y cais am gael ei wneud (bydd hyn fel rheol yn digwydd trwy'r arolygydd rhanbarthol pan geisir geirda canolwyr.)
- 5.8. Bydd AGGCC yn ystyried ceisiadau gan warchodwyr plant ac yn rhoi iddynt ganllawiau cyffredinol ar ddiogelwch tân, y cytunir arnynt gyda'r Awdurdod Tân ac Achub.
- 5.9. Ni fydd AGGCC fel rheol yn hysbysu Awdurdodau Tân ac Achub am geisiadau i gofrestru gwarchodwyr plant oni bai bod gofal dros nos yn cael ei ddarparu neu fod pryderon difrifol am ddiogelwch tân yn y safle (Gweler 5.14)
- 5.10. Onid oes pryderon difrifol wedi'u lleisio am ddiogelwch tân, ni fydd AGGCC yn aros am archwiliad gan yr Awdurdodau Tân ac Achub cyn cwblhau cofrestriad.
- 5.11. Bydd swyddfeydd rhanbarthol AGGCC yn anfon copi at yr Awdurdod Tân ac Achub perthnasol o unrhyw adroddiad arolygu blynyddol sydd yn codi unrhyw bryderon am ddiogelwch tân.
- 5.12. Trwy ei swyddfeydd rhanbarthol, bydd AGGCC yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol am unrhyw amrywiad i wasanaeth cofrestredig a allai effeithio ar ddiogelwch tân. Lle bo unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r effaith bosibl ar ddiogelwch tân, bydd AGGCC yn ceisio cyngor gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd AGGCC yn atgoffa darparwyr o'u rhwymedigaeth gyfreithiol i adolygu eu Hasesiad Risg Tân yng ngoleuni unrhyw newidiadau arfaethedig, gan gynnwys estyniadau ac addasiadau, newidiadau yn anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, newidiadau yn y lefelau staffio neu newidiadau yn y trefniadau rheoli. Bydd AGGCC hefyd yn atgoffa darparwyr fod angen cymeradwyaeth

Rheoliadau Adeiladu ar gyfer newidiadau i adeiladwaith (gweler 6.12) trwy ymgynghori â Chorff Rheoli Adeiladu (e.e. Arolygydd Cymeradwy neu Swyddog Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol).

- 5.13. Bydd AGGCC yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub lleol am unrhyw weithred orfodi berthnasol y mae'n ei hystyried mewn perthynas â diogelwch tân. Bydd y ddau Awdurdod yn ymgynghori ynglŷn â'r hyn sydd orau i'w wneud er mwyn ymateb i unrhyw dor-rheol mewn perthynas â diogelwch tân. Os ystyrir mai dyna sy'n briodol, bydd arolygiadau monitro'n cael eu cynnal ar y cyd gan AGGCC a'r Awdurdod Tân ac Achub, yn dilyn gweithred orfodi.
- 5.14. Pan ofynnir am hynny, bydd AGGCC yn rhoi manylion i'r Awdurdodau Tân ac Achub am ddarpariaeth sydd yn fach fel t• domestig (h.y. gwarchodwyr plant, asiantaethau gofal cartref sydd yn cynnwys Tai â Chymorth) fel y gellir cynnig darparu Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref ar gyfer safle o'r fath.

6. Beth fydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ei wneud ar gyfer AGGCC

- 6.1. Bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn unol â'r Concordat Gorfodi a Model Rheoli Gorfodi yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (gweler Atodiadau C a D).
- 6.2. Bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu gwybodaeth ar gyfer AGGCC am unrhyw faterion polisi a all effeithio ar unrhyw drefniant gwaith arfaethedig.
- 6.3. Lle bynnag y bydd AGGCC yn hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub am gais, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynnal archwiliad desg cychwynnol ar sail risg er mwyn penderfynu a oes angen archwilio'r safle. Rhoddir ystyriaeth briodol i'r angen i archwilio safleoedd, yn unol ag ymagwedd yr Awdurdod Tân ac Achub sydd yn seiliedig ar risg, os bydd AGGCC yn mynegi pryderon arbennig ynglŷn â diogelwch tân.
- 6.4. Bydd Awdurdodau Tân ac Achub, fel rhan o'u proses arolygu seiliedig ar risg, yn sicrhau bod darparwyr gofal wedi cyflawni asesiad risg tân a'u bod wedi cymryd camau priodol i ofalu am ddiogelwch a lles unrhyw bobl a all ddod i'r safle.
- 6.5. Lle bo angen, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer yr unigol cyfrifol, yn dweud beth yw canlyniadau archwiliad safle. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn anfon copi o'r adroddiad i swyddfa ranbarthol AGGCC.

SYLWER: - Mae rhannu data rhwng awdurdodau gorfodi at ddibenion Gweithgaredd Rheoleiddio yn eithriad galluogol o ofynion y Ddeddf Diogelu Data –

[Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.]

31. - (1) Personal data processed for the purposes of discharging functions to which this subsection applies are exempt from the subject information provisions in any case to the extent to which the application of those provisions to the data would be likely to prejudice the proper discharge of those functions.

(2) Subsection (1) applies to any relevant function which is designed-
(e) for securing the health, safety and welfare of persons at work, or
(f) for protecting persons other than persons at work against risk to health or safety arising out of or in connection with the actions of persons at work (www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980029.htm).

Deddf Diogelu Data 1998 Rhan iv Esemptiadau (Gweithgaredd rheoleiddio)

- 6.6. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn asesu'r risg i safleoedd yn unol â'u trefniadau monitro eu hunain ac yn penderfynu pa mor aml y mae'n briodol cynnal archwiliad. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi'r wybodaeth hon i AGGCC yn ôl y gofyn.
- 6.7. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cefnogi proses arolygu AGGCC trwy ddarparu copi o'r adroddiad ysgrifenedig ar eu harchwiliad diogelwch tân diwethaf a'r rhaglen welliannau pan ofynnir am hynny.
- 6.8. Bydd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn cytuno ym mha amgylchiadau y bydd angen i AGGCC eu hysbysu am bryderon (gweler Atodiad A), ac yn rhoi i AGGCC ganllawiau ynglŷn â'r rhain ar gyfer arolygwyr.
- 6.9. Lle bynnag y bydd AGGCC wedi hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub eu bod yn pryderu am y modd y mae darparwr yn cydymffurfio, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn archwilio safle cofrestredig o fewn amserlen briodol a bydd yn rhoi adroddiadau ysgrifenedig i AGGCC yn ôl yr angen. Lle bo'r pryderon yn rhai difrifol, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi blaenoriaeth i archwilio'r safle. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn anfon eu hadroddiad at y darparwr a chopi ohono i swyddfa ranbarthol AGGCC.
- 6.10. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn hysbysu swyddfa ranbarthol AGGCC am unrhyw weithred orfodi berthnasol y mae'n ei hystyried. Bydd y ddau gorff yn ceisio dod i gytundeb beth sydd fwyaf priodol i'w wneud i ymateb i unrhyw drosedd benodol. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub ac AGGCC yn cynnal arolygiadau monitro ar y cyd, yn ôl y gofyn, yn dilyn gweithred orfodi.
- 6.11. Lle bo Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu hyfforddiant diogelwch tân ar gyfer darparwyr a staff safleoedd cofrestredig, byddant yn cynnig cyfleoedd i staff AGGCC ymuno yn yr hyfforddiant ac ymgyswngtu â'r meysydd dan sylw.

7. Y Broses Ymgynghori ar y Rheoliadau Adeiladu

- 7.1. Cyrff rheoli adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy neu Arolygwyr Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol) sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw adeilad newydd neu newid i adeiladwaith yn cydymffurfio â'r gofynion yn y rheoliadau adeiladu o ran :
- Dulliau Rhybuddio a Dianc
 - Lledaeniad Tân yn Fewnol – Leiniau ac Adeiladwaith
 - Lledaeniad Tân y Tu Allan
 - Mynediad a chyfleusterau ar gyfer y gwasanaeth tân
- 7.2. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ym mhroses y rheoliadau adeiladu a byddant yn cael cyfle i roi sylwadau am bob cynllun newydd (gan gynnwys safleoedd a reoleiddir gan AGGCC).

8. Cytundebau Lefel Gwasanaeth Penodol

- 8.1. Mae'r adran hon yn cynnwys meysydd lle mae angen i AGGCC a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru gael canllawiau gweithdrefnol neu ddehongliad penodol.

8.1.1. Lleoliadau Domestig – Gofal Cartref (Tai â Chymorth)

Mae gofal cartref sy'n cael ei ddarparu mewn anheddau preifat y tu allan i faes y Gorchymyn Diogelwch Tân. Gall y Gwasanaeth Tân ac Achub dargedu safleoedd o'r fath ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref, lle gellir darparu cyngor sylfaenol ar ddiogelwch tân a rhoi peth offer diogelwch tân (Gweler Atodiad B, Diffiniadau – Asiantaethau Gofal Cartref).

- 8.1.2. **Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref** - Er mwyn lleihau nifer y tanau sy'n digwydd trwy ddamwain mewn anheddau, mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn darparu gwiriadau diogelwch tân yn y cartref. Bydd staff diogelwch tân cymunedol yn ymweld ag eiddo domestig er mwyn darparu cyngor ar ddiogelwch tân yn y cartref ac, mewn rhai achosion, byddant hefyd yn gallu gwirio neu osod synwryddion mwg am ddim. Yr archwiliadau hyn yw conglaen y swyddogaeth ragweithiol y mae'r Gwasanaeth yn awr yn ymgymryd â hi mewn ymgais i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau sy'n cael eu hachosi gan danau damweiniol.

- 8.2. Niferoedd staff mewn Cartrefi Gofal – Asesu Risg Tân mewn Safleoedd Gofal Preswyl (T72)
Dehongli'r paragraffau:-

“Staff numbers

The numbers of staff in your premises will have a very significant influence on the outcome of your risk assessment.

You may need to consult your registration authority to determine or agree the numbers of staff you should have in attendance, in

particular at night.”

- 8.2.1. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n cytuno nad yw'r paragraffau uchod yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod cofrestru bennu pa nifer o staff y mae'n rhaid iddynt fod ar ddyletswydd er mwyn cael pobl allan, gan mai cyfrifoldeb yr unigolyn cofrestredig yw hyn ac fe ddylid ei ystyried yn rhan o'r asesiad risg cyffredinol y mae'r darparwr yn ei wneud ar y safle.

9. Adolygu'r Protocol

- 9.1. Bydd y Protocol hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu pan fydd AGGCC neu Bwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru yn ystyried bod angen.

Sharon Rees
Prif Arolygydd Cynorthwyol, AGGCC

Dyddiad

Richard Smith
**Cadeirydd Pwyllgor Lleihau Risgiau
Cymunedol, Cymdeithas Prif Swyddogion Tân
(Cymru)**

Dyddiad

ATODIAD A

Rhestr Wirio Diogelwch Tân ar gyfer Arolygwyr AGGCC

Mae'r holl gyfrifoldeb am orfodi mewn perthynas â diogelwch tân wedi'i drosglwyddo bellach i'r Awdurdod Tân ac Achub (ac eithrio mewn perthynas â gwarchodwyr plant), ers Hydref 2006. Fodd bynnag, mae gan AGGCC ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed trwy gyfrwng y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Gofynnir i'r darparwr, trwy'r Ffurflen Hunanasesu, am wybodaeth sydd ar y rhestr wirio isod a disgwylir i ddarparwyr ddychwelyd y Ffurflen cyn cael arolygiad, er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol. Hefyd, fel rhan o'n hymagwedd gymesur at arolygu, bydd arolygwyr yn gwirio sampl o asesiadau risg, logiau a chynlluniau pan fyddant yn ymweld i gynnal arolygiadau.

Meysydd cyffredinol o bryder amlwg yw'r eitemau isod, a all arwain at gysylltu â'r Swyddog Diogelwch Tân yn y Gwasanaeth Tân ac Achub lleol (gweler Nodiadau Cyfarwyddyd, P./iii). Nid rhestr gynhwysfawr mohoni ac mae dyletswydd ar AGGCC fel sefydliad i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diogelu mewn perthynas â ffitrwydd safleoedd. Gan hynny, lle bo arolygwyr yn dod ar draws meysydd ychwanegol sy'n achosi pryder, bydd y rhain hefyd yn cael eu codi gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub lle bo hynny'n briodol.

Felly os bydd atebion negyddol, dylai hyn arwain at gyswllt o'r fath.

1. Polisi

a) A oes tystiolaeth o Bolisi Diogelwch Tân?

OES	
NAC OES	

2. Cynllun Argyfwng

a) A oes tystiolaeth o Gynllun Argyfwng?

OES	
NAC OES	

3. Hyfforddiant Staff

a) A oes tystiolaeth o Hyfforddiant Staff?

OES	
NAC OES	

4. Asesiad Risg

a) A oes tystiolaeth o Asesiad Risg Tân?

OES	
NAC OES	

5. Llyfr Log

a) A oes Llyfr Log yn cael ei gadw?

OES	
NAC OES	

b) A yw'r Cofnodion yn gyfredol?

YDYNT	
NAC YDYNT	

6. Allanfeydd Tân

A yw'r ffyrdd allan yn rhydd o unrhyw rwystrau ac o ddefnyddiau llosgadwy?

** Efallai y bydd rhai rwystrau dros dro yn dderbyniol am gyfnodau byr, e.e. troliau gwasanaethu**

YDYNT	
NAC YDYNT	

7. Drysau

A yw'r drysau sydd â dyfeisiau i wneud iddynt gau ohonynt eu hunain yn cael eu dal ar agor gyda lletem neu ateg? Ni chaniateir hyn ac mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater ar unwaith.

YDYNT	
NAC YDYNT	

8. Staff a Defnyddwyr y Gwasanaeth

Os oes staff a defnyddwyr gwasanaeth nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oes darpariaeth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o rybudd argyfwng a threfniadau i fynd allan o adeilad?

OES	
NAC OES	

Gellir cysylltu â'ch Swyddog Diogelwch Tân Lleol trwy ffonio'r rhif: 0370 6060699

CANLLAWIAU AR GYFER RHESTR WIRIO

1. Polisi

Dylai darparwyr a rheolwyr cartrefi gofal sicrhau bod ganddynt bolisi sydd wedi'i ddiffinio'n glir ar ddiogelwch tân er mwyn diogelu defnyddwyr y gwasanaeth, staff ac ymwelwyr. Dylid cael cyswllt clòs rhwng y polisi hwn a'r polisi iechyd a diogelwch ar gyfer y safle.

2. Cynllun Argyfwng

Dylai darparwyr sicrhau bod ganddynt gynllun argyfwng sydd wedi'i ddiweddarau, yn seiliedig ar yr Asesiad Risg Tân (gweler isod). Dylai'r cynllun gynnwys manylion (ymhlith pethau eraill) am:

- beth mae'r staff i'w wneud os bydd tân
- sut y maent hwy ac unrhyw bobl eraill sydd yno i fynd allan o'r safle os bydd tân. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer y staff sydd ar ddyletswydd a'r amgylchiadau ffisegol yn yr adeilad
- y trefniadau ar gyfer galw'r Gwasanaeth Tân ac ar gyfer eu hysbysu am unrhyw risgiau arbennig
- tystiolaeth fod nifer digonol o bobl yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r dasg o roi'r cynllun ar waith
- sicrhau bod copi o'r cynllun ac o ganfyddiadau'r asesiad risg yn cael ei gadw yn y safle a'u bod ar gael i'w harchwilio
- tystiolaeth bod un unigolyn wedi'i enwi sydd â chyfrifoldeb fel rheolwr am ddiogelwch tân

Dylid cadw lluniad/cynllun cyfoes o'r safle sy'n dangos:

- Systemau synhwyro a larymau awtomatig
- Ffyrdd o ddianc
- Is-rannau
- Offer diffodd tân â llaw
- Mynediad ar gyfer y Gwasanaeth Tân

Os nad oes cynllun yn cael ei ddarparu, gwiriwch nad oes eitemau sydd yn amlwg wedi'u difrodi.

3. Hyfforddiant Staff

Dylai darparwyr a rheolwyr cartrefi gofal sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro ac asiantaeth) yn cael gwybodaeth ddigonol am y rhagofalon tân sydd i'w dilyn ar y safle, a chyfarwyddyd a hyfforddiant ynglŷn â'r rhain, gan gynnwys beth y dylent ei wneud os bydd tân. Dylid gwneud hyn pan fyddant yn dechrau ar eu cyflogaeth a phryd bynnag y bydd newid yn y risg tân. Dylai pob aelod o staff fynychu o leiaf dau sesiwn y flwyddyn. Dylai'r hyfforddiant Diogelwch Tân fod yn benodol ar gyfer y safle a dylai gynnwys:

- atal tân

- y drefn gywir ar gyfer beth i'w wneud pan ddarganfyddir tân
- y drefn gywir ar gyfer beth i'w wneud petai dillad unigolyn neu badell o saim yn mynd ar dân
- trefniadau mynd allan a dianc
- sylweddoli pwysigrwydd drysau tân a'r defnydd cywir ohonynt a pheidio â'u camddefnyddio
- defnyddio offer diffodd tân â llaw sy'n cael eu darparu, gyda hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y staff hynny sydd wedi'u penodi'n wardeiniaid/swyddogion tân

4. Asesu Risg

A oes asesiad risg a hwnnw wedi'i ddiweddarau?

Dylid adolygu'r asesiad risg (a'i ddiwygio os bydd angen) bob blwyddyn ac ar unrhyw adeg pan fydd rheswm i gredu nad yw'n realistig mwyach.

Dylid ei adolygu hefyd pryd bynnag y bu newid sylweddol yn y gweithgareddau sy'n digwydd yn y safle, neu os bu newid sylweddol yn nifer defnyddwyr y gwasanaeth neu yn eu dibyniaeth.

5. Llyfr Log

A oes cofnodion yn cael eu cadw ar yr adegau priodol, ynglŷn â'r materion isod?

Ymarferion Tân

- Safleoedd bach a chanolig – dylid cynnal ymarfer o leiaf unwaith y flwyddyn
- Safleoedd mwy – dylid cynnal ymarfer o leiaf ddwywaith y flwyddyn

Profi a Chynnal a Chadw Larymau Tân

- Mae'n rhaid profi'r larwm tân unwaith yr wythnos, gan ddefnyddio pwynt torri gwydr gwahanol bob tro y cynhelir prawf.

Profi a Chynnal a Chadw Offer Diffodd Tân

- A yw'r offer diffodd tân wedi cael eu harchwilio yn y deuddeng mis diwethaf?

Hyfforddiant Staff

- Dylai'r holl staff fynychu o leiaf dau sesiwn hyfforddi y flwyddyn.

Profi a Chynnal a Chadw Goleuadau Argyfwng

- Archwiliad trwy edrych arnynt bob dydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg yn y system. Dylid cofnodi unrhyw ddiffygion a sicrhau eu bod yn cael eu trwsio ar unwaith
- Dylid eu profi unwaith y mis er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n gywir, trwy greu amgylchiadau tebyg i'r hyn sy'n digwydd pan nad oes cyflenwad p• er ar gyfer y goleuadau arferol.

6. Ffordd o Ddianc - *“Dull, o ran adeiladwaith, lle darperir llwybr diogel i bobl deithio o unrhyw bwynt mewn adeilad i **LE DIOGEL** y tu hwnt i'r adeilad heb gymorth allanol.”*

ATODIAD B

Diffiniadau o safleoedd, asiantaethau a mannau eraill a reoleiddir o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000

Cartrefi Plant/Uned Ddiogel

Sefydliad yw cartref plant sydd yn darparu gofal a llety yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant. Bydd rhai cartrefi plant yn sefydliadu arbenigol ar gyfer plant sydd angen cefnogaeth therapiwtig neu ar gyfer plant sydd ag anableddau ac mae cartrefi eraill yn darparu gofal seibiant yn unig. Ceir hefyd un uned ddiogel yng Nghymru.

Canolfannau Preswyl i Deuluoedd

Lle yw canolfan breswyl i deuluoedd y mae rhieni'n cael asesiad preswyl ynddo o'u gallu i ofalu'n ddiogel am eu plant, weithiau dan gyfarwyddyd y llysoedd. Ar hyn o bryd mamau â phlant ifanc yn unig sydd yn cael darpariaeth canolfan breswyl i deuluoedd yng Nghymru.

Gwasanaethau Maethu Cyhoeddus ac Annibynnol

Mae gwasanaethau maethu'n gyfrifol am recriwtio, asesu, hyfforddi a chefnogi gofalmwyr maeth sydd yn darparu cartref ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal' ac sydd yn cael eu lleoli yno gan yr Awdurdod Lleol. Mae AGGCC yn arolygu'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio a'i safleoedd busnes ond nid yw'n arolygu cartrefi gofalmwyr maeth unigol. Mae gwasanaethau maethu'n amrywio o ran maint a gallant recriwtio gofalmwyr maeth o ardal ddaearyddol eang.

Gwasanaethau Mabwysiadu

Mae gwasanaethau mabwysiadu'n gyfrifol am recriwtio, asesu a chefnogi rhieni sy'n mabwysiadu a pharu plant â'r mabwysiadwyr hyn. Arolygir y gwasanaethau hyn gan AGGCC bob 3 blynedd. Mae AGGCC yn arolygu'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio a'i safleoedd busnes ond nid yw'n arolygu cartrefi mabwysiadwyr unigol.

Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu

Mae'r rhain yn wahanol i wasanaethau mabwysiadu oherwydd darparu gwasanaethau i gynorthwyo gyda mabwysiadu yw eu hunig swyddogaeth – e.e. cwnsela ar gyfer oedolion neu blant sydd wedi cael eu mabwysiadu. Arolygir y gwasanaethau hyn gan AGGCC bob 3 blynedd. Mae AGGCC yn arolygu'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio a'i safleoedd busnes.

Ysgolion Arbennig Preswyl

Ysgolion yw'r rhain ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol (e.e. anableddau corfforol a/neu ddysgu) a datganiad o anghenion addysgol arbennig, lle mae'r plant yn byw ar y safle. Mae arolygiadau AGGCC yn canolbwyntio ar y trefniadau a wneir i ddiwallu'r rhwymedigaeth sydd ganddynt i ddiogelu a hyrwyddo lles plant y darperir llety ar eu cyfer. Estyn fydd yn arolygu ansawdd yr addysg a ddarperir.

Ysgolion Byrddio

Ysgolion yw'r rhain lle mae'r plant yn byw ar y safle. Mae myfyrwyr o dramor mewn nifer ohonynt. Mae AGGCC yn arolygu'r rhain bob 3 blynedd ac yn canolbwyntio ar y trefniadau a wneir i ddiwallu'r rhwymedigaeth sydd ganddynt i ddiogelu a hyrwyddo lles plant y darperir llety ar eu cyfer. Estyn fydd yn arolygu ansawdd yr addysg a ddarperir.

Colegau Addysg Bellach

Mae AGGCC yn arolygu'r ddarpariaeth les mewn colegau lle darperir llety preswyl i bobl ifanc dan 18 oed ond heb iddynt fodloni'r meini prawf i gael eu cofrestru fel cartref gofal. Bydd y plant a'r bobl ifanc yn y sefydliadau hyn yn tueddu i fod dros 16 oed. Mae AGGCC yn arolygu'r rhain bob 3 blynedd ac mae'r fframwaith arolygu yn debyg i'r un ar gyfer ysgolion byrddio.

Cartrefi Gofal

Mae cartref gofal yn darparu llety a gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth sef pobl hŷn yn bennaf, pobl sydd ag anabledd corfforol neu ddysgu neu bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac na all ofalu amdanynt eu hunain gartref oherwydd eu hanghenion penodol. Gall cartrefi gofal fod ag unrhyw nifer o welyau, o 1 i 100+. Gall rhai cartrefi gofal hefyd ddarparu gofal nyrsio os ydynt wedi'u cofrestru i wneud hynny.

Asiantaethau Gofal Cartref

Mae'r gwasanaeth hwn yn recriwtio gweithwyr gofal i ddarparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant sydd yn byw yn eu cartrefi eu hunain ond sydd angen cymorth i allu gwneud hynny. O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 nid oes gan AGGCC hawl cyfreithiol i fynd i mewn i gartref defnyddiwr gwasanaeth ac felly ni fyddai AGGCC ond yn ymweld â'r asiantaeth er mwyn sicrhau bod ganddynt y systemau a'r prosesau angenrheidiol i fodloni'r rheoliadau.

Tai â Chymorth - mae'r math hwn i safle yn cael eu cefnogi gan Asiantaethau Gofal Cartref ac nid ydynt yn safle 'domestig', felly maent yn dod o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân. Fel rheol maent yn safleoedd a feddiannir gan denantiaid ac mae pawb sy'n byw yno â chytundeb tenantiaeth. Y tenant ei hun yn unig sy'n cael defnyddio eu hystafell(oedd), gallant ddewis eu darparwr gofal eu hunain ac mae'n bosibl y byddant yn rhannu rhai cyfleusterau. Yn aml bydd gofal a chefnogaeth yn cael ei ddarparu yno gan ofalwyr sy'n byw ar y safle, ar gyfer pobl anabl neu bobl sydd ag anawsterau dysgu. Penderfynir ar bob achos yn seiliedig ar yr amgylchiadau ond fel rheol y Gwasanaeth Tân ac Achub fydd yn gwneud y gwaith gorfodi (defnyddir yr Asesiad Risg Diogelwch Tân - Canllawiau Llety ar gyfer Cysgu neu'r Asesiad Risg Diogelwch Tân - Canllawiau Safle Gofal Preswyl, i asesu'r safonau fel y bo'n briodol). Mae safleoedd o'r fath hefyd y tu allan i faes gwasanaethau rheoleiddedig AGGCC. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd angen delio â phob achos yn unigol, gan ymgynghori hefyd â'r Awdurdod Tai Lleol.

Cynlluniau Lleoli Oedolion

Mae cynlluniau lleoli oedolion yn darparu gwasanaeth ar gyfer pobl (pobl ag anabledd dysgu yn bennaf) lle mae hyd at ddau ddefnyddiwr gwasanaeth yn

byw mewn t• domestig gyda theulu nad yw'n perthyn iddynt. Fel uchod, nid oes gan AGGCC bwerau cyfreithiol i fynd i mewn i gartref defnyddiwr gwasanaeth ac felly mae'n rheoleiddio'r cynllun yn hytrach na'r cartref unigol.

Asiantaethau Nyrsys

Mae asiantaethau nyrsys yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau er mwyn cael hyd i swyddi i bobl gyda chyflogwyr megis cartrefi gofal ac unigolion preifat yn eu cartrefi eu hunain, a darparu ar gyfer cyflogwyr bobl y gallant eu cyflogi. Fel yn achos asiantaethau gofal cartref, byddai AGGCC yn arolygu'r asiantaeth er mwyn sicrhau bod ganddynt y systemau a'r prosesau angenrheidiol i fodloni'r rheoliadau ond nid yn arolygu lleoliadau unigol.

Gwarchodwyr plant - yn darparu gofal yn eu cartref eu hunain ar gyfer plant rhywun arall o dan wyth oed, am fwy na dwy awr y dydd ac am dâl. Gallant ddarparu gofal dros nos ar gyfer plant a warchodir.

Gofal dydd llawn - gall fod mewn perchnogaeth breifat neu gymunedol; canolfannau teulu, canolfannau plant neu feithrinfeydd dydd. Gallant weithredu mewn safle sydd mewn perchnogaeth breifat, yn safle pwrpasol neu'n un a addaswyd, neu mewn safle sydd mewn perchnogaeth gymunedol. Oedran y plant sy'n derbyn gofal fel rheol yw o enedigaeth y plentyn nes bod yn wyth oed.

Gofal sesiynol – a elwir yn fwy cyffredin yn gylch chwarae neu gylch meithrin. Maent yn gweithredu fel rheol mewn safle sydd mewn perchnogaeth gymunedol – neuadd bentref, canolfan gymunedol, festri capel neu mewn ysgol gynradd. Maent yn gweithredu am 4 awr neu lai y sesiwn ac efallai y bydd ganddynt ddau wahanol sesiwn ar yr un diwrnod. Fel rheol bydd y plant rhwng 2 oed ac oedran ysgol.

Gofal y tu allan i'r ysgol – ar gyfer pob plentyn o oedran ysgol (hyd at 8 oed at ddibenion AGGCC) gan ddarparu gofal cyn yr ysgol, ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallant weithredu drwy gydol y flwyddyn neu am gyfnod byr – e.e. cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r Pasg neu'r haf yn unig. Fe'u cynhelir fel rheol ar safle ysgol gynradd ond gallant fod mewn adeiladau cymunedol. Fe'u cofrestrir gan AGGCC pan ddarperir gofal am fwy na chyfanswm o 2 awr mewn unrhyw ddiwrnod. Fe'u gelwir yn aml yn glybiau brecwast neu glybiau ar ôl oriau ysgol. Maent dan reolaeth gymunedol fel rheol yn hytrach nag mewn perchnogaeth breifat.

Crèches - yn darparu gofal achlysurol ar gyfer plant dan 8 oed, er enghraifft, mewn canolfan hamdden, ardal siopa neu ganolfan gymunedol. Bydd y rhieni ar y safle fel rheol. Gallant fod yn drefniant dros dro (e.e. er mwyn i rieni allu mynychu rhyw gwrs) neu yn barhaol ar gyfer defnyddwyr cyfleusterau chwaraeon. Gall yr ystod oedran fod o enedigaeth y plentyn nes bod yn wyth oed a gall plant fynychu am unrhyw beth rhwng un awr hyd at ddiwrnod llawn, yn unol ag anghenion y rhieni a'r cyfleuster y maent yn ei ddefnyddio. Gallant fod mewn perchnogaeth breifat, cymunedol neu gorfforaethol.

Chwarae Mynediad Agored – gallant fod yn gynlluniau parhaol neu dros dro, lle bydd plant pump oed a hŷn y mynychu. Gall plant fynd a dod heb i riant/gofalwr fod gyda hwy. Gall y lleoliadau hyn fod heb ddefnydd o safle, neu â defnydd cyfyngedig o'r safle ac at ei gilydd maent mewn perchnogaeth gymunedol. Rhoddir i'r plant amrywiol brofiadau dysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys adeiladu eu cysgodfannau eu hunain a dysgu ynglŷn â gwneud tân a sut i reoli tân.

Mae cymorth ar gael i'r sefydliadau uchod trwy fod yn aelodau o'r mudiadau isod:

- Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
- Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
- Chwarae Cymru (cefnogaeth drwy gyfrwng hyfforddiant i rai nad ydynt yn aelodau)

ATODIAD C

Model Rheoli Gorfodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Bydd y broses o arolygu gweithleoedd, asesu risgiau a gwneud penderfyniadau gorfodi lle bo hynny'n briodol, yn digwydd yn unol ag egwyddorion, disgwyliadau a methodoleg y Model Rheoli Gorfodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef yr arferion gorau yn genedlaethol.

O ddefnyddio'r Model, sy'n cynnwys asesiad o 'Ffactorau Unigolyn Cyfrifol' a 'Ffactorau Strategol', bydd modd i arolygwyr wneud penderfyniadau gorfodi cyson a theg ar sail canllawiau clir, a saif yn gadarn o gael eu herio, ac y gellir eu harchwilio.

Bwriedir i'r Model, ynghyd â gweithdrefnau'r Gwasanaeth:

- hyrwyddo cysondeb o ran gorfodi
- hyrwyddo cymesuredd a thargedu trwy gadarnhau'r meini prawf sy'n seiliedig ar risg, y gwneir penderfyniadau yn eu herbyn
- fod yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi'n dryloyw
- sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol amdanynt
- helpu arolygwyr profiadol i asesu eu penderfyniadau mewn achosion cymhleth
- galluogi gweithredoedd gorfodi i gael eu hadolygu gan gymheiriaid

ATODIAD D

Amllder adolygu'r Asesiad Risg Tân mewn Cartrefi Gofal

Nod yr wybodaeth ganlynol yw darparu eglurder ynghylch amllder yr adolygu.

Mae'r Canllaw Diogelwch Tân ar gyfer Adeiladau Gofal Preswyl yn datgan:

Cam 5: Adolygu

Dylech fonitro'n gyson yr hyd y byddwch yn ei wneud i weithredu'r asesiad risg tân, er mwyn asesu pa mor effeithiol y rheolir y risg.

Os oes gennych unrhyw reswm i amau nad yw'ch asesiad risg tân yn ddilys bellach, neu fod newid arwyddocaol yn eich adeilad neu'ch safle wedi effeithio ar eich rhagofalon tân, dylech adolygu eich asesiad, ac os oes angen, ei ddiwygio. Gallai'r rhesymau dros adolygu gynnwys:

- newidiadau mewn arferion gwaith neu'r ffordd y byddwch yn eu trefnu, gan gynnwys dechrau defnyddio unrhyw offer newydd;
- newidiadau i'r adeilad, gan gynnwys ei osodiad mewnol;
- newidiadau sylweddol yn y dodrefn a'r ffitiadau;
- dechrau defnyddio, newid y dull o ddefnyddio, neu storio rhagor, o sylweddau peryglus;
- methiant rhagofalon tân, e.e. systemau canfod tân a larymau, ysgeintellau diogelu bywyd neu systemau awyru;
- y staff neu'r preswylwyr yn cyfeirio at broblemau sylweddol;
- cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n bresennol ar y safle;
- presenoldeb pobl sydd â math gwahanol neu benodol o anabledd; a
- newidiadau yn y cymarebau staffio.

Dylech ystyried, cyn gwneud y newid, y risg bosibl a achosir ganddo. Fel arfer, gellir lleihau'r risg yn fwy effeithiol, er enghraifft, drwy sicrhau gofod digonol a phriodol i storio unrhyw eitem newydd, cyn dod â'r eitem honno i'ch adeilad.

Ni ddylech ddiwygio'ch asesiad oherwydd pob mân newid dibwys, ond os oes peryglon newydd yn gysylltiedig â'r newid, dylech eu hystyried; ac os ydynt yn sylweddol, gwneud beth bynnag sydd ei angen i gadw'r risgiau dan reolaeth.

Ym mhob achos, beth bynnag, dylech gadw'ch asesiad dan arolwg er mwyn sicrhau bod y rhagofalon yn dal i weithio'n effeithiol. Hwyrach y byddwch yn dymuno ail-archwilio'r mesurau atal a diogelwch tân yr un pryd â'ch asesiad iechyd a diogelwch.

Rhestr gyfeirio

- A yw'ch staff wedi cael unrhyw hyfforddiant diogelwch tân?
- A ydych wedi cynnal dril tân yn ddiweddar?
- A yw'ch staff yn gwybod pa dasgau penodol i'w gwneud os digwydd tân?
- A yw'r preswylwyr yn gwybod sut i weithredu'n benodol os digwydd tân?

- A ydych yn cadw cofnod o'r sesiynau hyfforddi?
- Os ydych yn defnyddio neu'n storio sylweddau peryglus, a yw'ch staff wedi cael yr hyfforddiant priodol?

Rhan 1: Asesiad risg tân

Os digwydd tân neu achos 'ond y dim', gallai hynny fod yn arwydd bod eich asesiad presennol yn annigonol, ac y dylech wneud ail-asesiad. Mae'n arfer da darganfod achos unrhyw ddigwyddiad yn gyntaf, ac yna adolygu, a phan fo angen, diwygio eich asesiad risg yng ngoleuni hynny.

Mae llythyrau safonol y Gwasanaeth Tân ac Achub at Bersonau Cyfrifol yn argymhell, ond nid yn pennu bod rhaid, i'r person cyfrifol adolygu'r asesiad risg ar gyfer adeilad o leiaf unwaith y flwyddyn.

Er y gellir ystyried bod hynny'n mynd tu hwnt ac uwchlaw argymhellion y canllaw diogelwch tân, ein bwriad ni yw ymdrechu i annog arferion da, a golyga hynny ein bod yn cefnogi'r brawddegau a amlygir mewn print tywyll yn y dyfyniad o'r canllaw uchod. Mae hyn yn gydnaws â'r cyngor a roddir gan y Swyddogion Diogelwch Tân.



CABINET OFFICE

Enforcement CONCORDAT



The Principles of Good Enforcement : Policy and Procedures

This document sets out what business and others being regulated can expect from enforcement officers. It commits us to good enforcement policies and procedures. It may be supplemented by additional statements of enforcement policy.

The primary function of central and local government enforcement work is to protect the public, the environment and groups such as consumers and workers. At the same time, carrying out enforcement functions in an equitable, practical and consistent manner helps to promote a thriving national and local economy. We are committed to these aims and to maintaining a fair and safe trading environment.

The effectiveness of legislation in protecting consumers or sectors in society depends crucially on the compliance of those regulated. We recognise that most businesses want to comply with the law. We will, therefore, take care to help business and others meet their legal obligations without unnecessary expense, while taking firm action, including prosecution where appropriate, against those who flout the law or act irresponsibly. All citizens will reap the benefits of this policy through better information, choice and safety.

We have therefore adopted the central and local government Concordat on Good Enforcement. Included in the term 'enforcement' are advisory visits and assisting with compliance as well as licensing and formal enforcement action. By adopting the concordat we commit ourselves to the following policies and procedures, which contribute to best value, and will provide information to show that we are observing them.

Principles of Good Enforcement : Policy

STANDARDS

In consultation with business and other relevant interested parties, including technical experts where appropriate, we will draw up clear standards setting out the level of service and performance

the public and business people can expect to receive. We will publish these standards and our annual performance against them. The standards will be made available to businesses and others who are regulated.

OPENNESS

We will provide information and advice in plain language on the rules that we apply and will disseminate this as widely as possible. We will be open about how we set about our work, including any charges that we set, consulting business, voluntary organisations, charities, consumers and workforce representatives. We will discuss general issues, specific compliance failures or problems with anyone experiencing difficulties.

HELPFULNESS

We believe that prevention is better than cure and that our role therefore involves actively working with business, especially small and medium sized businesses, to advise on and assist with compliance. We will provide a courteous and efficient service and our staff will identify themselves by name. We will provide a contact point and telephone number for further dealings with us and we will encourage business to seek advice/information from us. Applications for approval of establishments, licences, registrations, etc, will be dealt with efficiently and promptly. We will ensure that, wherever practicable, our enforcement services are effectively co-ordinated to minimise unnecessary overlaps and time delays.

COMPLAINTS ABOUT SERVICE

We will provide well publicised, effective and timely complaints procedures easily accessible to business, the public, employees and consumer groups. In cases where disputes cannot be resolved, any right of complaint or appeal will be explained, with details of the process and the likely time-scales involved.

PROPORTIONALITY

We will minimise the costs of compliance for business by ensuring that any action we require is proportionate to the risks. As far as the law allows, we will take account of the circumstances of the case and the attitude of the operator when considering action.

We will take particular care to work with small businesses and voluntary and community organisations so that they can meet their legal obligations without unnecessary expense, where practicable.

CONSISTENCY

We will carry out our duties in a fair, equitable and consistent manner. While inspectors are expected to exercise judgement in individual cases, we will have arrangements in place to promote consistency, including effective arrangements for liaison with other authorities and enforcement bodies through schemes such as those operated by the Local Authorities Co-ordinating Body on Food and Trading Standards (LACOTS) and the Local Authority National Type Approval Confederation (LANTAC).

Principles of Good Enforcement : Procedures

Advice from an officer will be put clearly and simply and will be confirmed in writing, on request, explaining why any remedial work is necessary and over what time-scale, and making sure that legal requirements are clearly distinguished from best practice advice.

Before formal enforcement action is taken, officers will provide an opportunity to discuss the circumstances of the case and, if possible, resolve points of difference, unless immediate action is required (for example, in the interests of health and safety or environmental protection or to prevent evidence being destroyed).

Where immediate action is considered necessary, an explanation of why such action was required will be given at the time and confirmed in writing in most cases within 5 working days and, in all cases, within 10 working days.

Where there are rights of appeal against formal action, advice on the appeal mechanism will be clearly set out in writing at the time the action is taken (wherever possible this advice will be issued with the enforcement notice).